**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Drwy e-bost

1 Gorffennaf 2025

Annwyl Mark,

## Newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb, a gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi trafod newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb (y Protocol) a gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer cyllidebau atodol yn ystod y Chweched Senedd hyd yma.

Ysgrifennodd y Llywydd, fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, at y Pwyllgor ar 18 Mehefin 2026 yn gofyn am y diweddaraf am y cynigion hyn fel rhan o'i raglen waith weithdrefnol ac amseriad unrhyw ymgysylltiad o'r fath.

O ystyried nad oes llawer o gyfle i wneud unrhyw newidiadau rhwng nawr a'r etholiad y flwyddyn nesaf, mae'r Pwyllgor yn dymuno gofyn am eich barn ar y materion hyn i archwilio a oes modd cytuno ar ffordd o symud ymlaen â'r materion hyn yn y Senedd hon.

## Protocol Proses y Gyllideb

Ar 11 Rhagfyr 2023, ysgrifennais at eich rhagflaenydd yn crynhoi lle roedd y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb mewn perthynas â'r Protocol. Wrth ymateb, awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd:

> *"... dylem geisio gwneud y newidiadau i'r Protocol a'r Rheolau Sefydlog y gallwn gytuno arnynt fel un pecyn sengl, cyfunol o newidiadau yn hytrach na cheisio cymeradwyaeth y Senedd mewn modd mwy tameidiog. Rwyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol inni barhau i ystyried cynigion ein gilydd gan ddisgwyl y gallwn gytuno ar ddull unedig o ddiwygio'r Protocol cyn toriad yr Haf."*

Fodd bynnag, yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf 2024 ac ymrwymiad gan y Canghellor y byddai Llywodraeth y DU yn cynnal un digwyddiad cyllidol mawr y flwyddyn ac yn

sefydlu amserlen reolaidd ar gyfer adolygiadau gwariant, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd atom yn nodi:

> *"Byddwn yn ystyried beth fydd goblygiadau hyn i'n hamserlen gyllidebol ein hunain ac yn ei ystyried yng nghyd-destun y trafodaethau sydd ar y gweill gennym am Brotocol y Gyllideb."*

Cyn Datganiad yr Hydref ar 30 Hydref 2024, ysgrifennais atoch chi eto yn galw am y wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad cyllidol hwnnw am y goblygiadau i brosesau cyllidebol y Senedd yn sgil unrhyw newidiadau ar lefel y DU. Roeddem yn siomedig o beidio â chael ymateb i'r cais hwnnw, a gwnaethom argymhelliad dilynol yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ym mis Chwefror 2025 ynglŷn â'r mater hwn:

> "***Argymhelliad 2.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet:*
>
> - *yn amlinellu ei farn ar newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf; ac*
> - *yn gweithio gyda swyddogion y Senedd i ddatblygu egwyddorion allweddol fel sail ar gyfer ail-lunio'r protocol yn sylfaenol cyn rownd nesaf y gyllideb*."

Wrth ymateb, dywedoch chi:

> *"Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb. Er fy mod yn cefnogi adolygiad ac yn agored i newid ein ffyrdd o weithio, rwyf o'r farn o hyd nad dyma'r pwynt cywir yng nghylch y Senedd i gytuno ar ail-lunio'r Protocol yn sylfaenol. Mater i aelodau etholedig yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig i'r Senedd a'r cynnydd yn nifer Aelodau'r Senedd yn 2026 a fydd cytuno ar newidiadau i'r dyfodol. Mae'n ddigon posibl y bydd hyn yn arwain at newidiadau i'r broses graffu, gan gynnwys yn nifer pwyllgorau'r Senedd, eu cyfrifoldebau, a faint o aelodau fydd yn eistedd arnynt.*
>
> *Nid yw'r newid hwn yn ein hatal, er hynny, rhag gwneud gwelliannau yn awr. Rydym eisoes wedi llwyddo i weithio gyda'n gilydd i hwyluso proses y gyllideb heb newidiadau i'r Protocol nac i'r Rheolau Sefydlog ac rwyf yn awyddus i barhau â'r dull hwn, gan wneud newidiadau hanfodol yn unig i'r Protocol ymlaen llaw i'r Senedd. Rwyf yn cynnig bod swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried yn llawn y newidiadau arfaethedig yng ngoleuni hyn."*

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau pa "newidiadau hanfodol" yr hoffech eu gwneud cyn y Senedd nesaf, gan gynnwys rhyw syniad ynghylch a yw'r rhain yn cynnwys y newidiadau a amlinellir mewn gohebiaeth a anfonwyd gennym ar 11 Rhagfyr 2023 (a amlinellir yn Atodiad A) a 4 Gorffennaf

2024 (a amlinellir yn Atodiad B). Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, byddem yn cynnig diweddaru'r derminoleg sydd yn y Protocol, megis nodi 'Senedd' yn lle 'Cynulliad'.

Rydym yn cytuno mai dim ond unwaith y bydd y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb y dylid gwneud newidiadau i'r Protocol fel pecyn sengl, ac rwy'n galw arnoch i gadarnhau pa gynigion penodol yr ydych o'r farn y dylid bwrw ymlaen â nhw nawr, a pha rai y mae orau eu gadael i'r Senedd nesaf eu trafod.

O ystyried ein diddordeb yn natblygiad cyffredinol gweithdrefnau cyllidebol, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael gwybod am yr adolygiad statudol o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gwblhau erbyn Medi 2026, ac rwy'n nodi y caiff Papur Gwyrdd ei gyhoeddi rhwng nawr a'r etholiad. Byddai hefyd yn ddefnyddiol ar y pwynt hwn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a fydd yr adolygiad hwn yn llywio unrhyw newidiadau i'r Protocol yn y dyfodol.

Gweithdrefnau ar gyfer Cyllidebau Atodol

O ran newid y gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar 4 Mai 2023 a 18 Hydref 2023, yn ogystal ag anfon gohebiaeth bellach ar 23 Chwefror 2024, yn gofyn am eu barn ar y mater hwn. Anfonwyd llythyr ar wahân hefyd at Gadeirydd Pwyllgor y Llywydd ar 23 Chwefror 2024 yn gofyn am farn y Comisiwn Etholiadol.

Daeth ymatebion i law gan Gomisiwn y Senedd, Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a chrynhowyd y materion a godwyd mewn llythyr pellach gan y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar y pryd ar 4 Gorffennaf 2024. Cyflwynodd y Comisiwn Etholiadol sylwadau i'r Pwyllgor ar y materion hyn mewn gohebiaeth ddiweddarach a ddaeth i law ar 28 Mawrth 2025. Mae'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt wedi'u crynhoi o dan atodiad C.

Mewn ymateb i'r cynigion hyn, dywedodd eich rhagflaenydd mewn perthynas â'r cynigion a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Senedd, Archwilio Cymru a'r Ombwdsmon ar newid gweithdrefnau cyllideb atodol:

> *"Yn hytrach nag ymateb i'r cynigion ychwanegol hyn ar wahân, rwy'n credu y byddai'n briodol eu hychwanegu at y set o faterion y mae ein swyddogion wrthi'n eu trafod. Yn amodol ar y trafodaethau hynny ar lefel swyddogion, rwy'n siŵr bod meysydd y gallem gytuno arnynt o ran cyrff a ariennir yn uniongyrchol."*

Fel gyda'r newidiadau arfaethedig i'r Protocol, gofynnwn i chi gadarnhau pa feysydd penodol mewn perthynas â newid y gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol rydych yn cytuno â nhw, ac a ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'r newidiadau hynny yn y Senedd hon, cyn y diddymiad y flwyddyn nesaf.

Mae hyn yn cynnwys eich barn ar y newidiadau ychwanegol i'r Rheolau Sefydlog y gofynnwyd amdanynt gan y Comisiwn Etholiadol ar 28 Mawrth 2025 a nodir uchod.

Rwy'n cydnabod mai'r Senedd sy'n gyfrifol yn y pen draw am drafod y newidiadau hyn, ac efallai na fydd yn briodol i Lywodraeth Cymru fynegi barn ar weithdrefnau cyllidebol sy'n ymwneud â'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol, gan eu bod, yn ôl eu diffiniad, yn cael eu hariannu'n annibynnol ar y Llywodraeth. Serch hynny, oherwydd natur gweithdrefnau atodol y Senedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau atodol cyrff a ariennir yn uniongyrchol gael eu hymgorffori yng nghynnig cyllideb atodol Llywodraeth Cymru a'u trafod gan y Senedd fel un pecyn, gofynnwn i chi yn benodol asesu a yw'r newidiadau arfaethedig yn peri unrhyw risgiau strwythurol i weithdrefnau presennol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl fel y gallwn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i edrych ymhellach ar y materion hyn, a hynny os bydd cytundeb rhyngom ar sut y dylid mynd i'r afael â phryderon y cyrff a ariennir yn uniongurchol mewn perthynas â gweithdrefnau cyllideb atodol.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor y Llywydd o ystyried ei gyfrifoldebau goruchwylio mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

ATODIAD A: Crynodeb o feysydd y cytunwyd arnynt o ran y Protocol, fel y nodwyd yn y llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2023

| Newidiadau arfaethedig | Rhesymau dros y newidiadau |
|---|---|
| Paragraff newydd (5A)<br>"Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cynnal dadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyllideb ~~cyn toriad yr haf~~. Nod y ddadl yw rhoi cyfle i Bwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â chyllideb Llywodraeth Cymru yn y camau cynnar. Bydd y ddadl yn cael ei llywio gan waith ymgysylltu'r Pwyllgor cyn y gyllideb a bydd Cadeiryddion pwyllgorau eraill y Senedd yn cael eu hannog i wneud cyfraniadau sy'n adlewyrchu materion o fewn eu priod gylchoedd gwaith." | Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu arferion sefydledig sy'n haeddu cael eu hymgorffori yn y protocol ac rydym felly'n cynnig paragraff newydd (5A) er mwyn cyflawni hyn.<br>Sylwer bod y gwaith ailddrafftio cychwynnol ar baragraff newydd 5A yn awgrymu y byddai'r ddadl bob amser yn digwydd cyn toriad yr haf. Er bod manteision i gadw at yr amserlenni hyn, efallai na fydd Aelodau am bennu dyddiadau yn y protocol rhag ofn y byddai achosion pan fyddai'n dda o beth cynnal y ddadl yn hwyrach. Mae hyn wedi'i ddileu ac wedi'i dracio at ddibenion cyfeirio. |
| Paragraff newydd (5B)<br>Mewn blynyddoedd lle ceir oedi cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, y disgwyl yw y bydd y Gweinidog Cyllid yn bresennol yn sesiynau craffu'r Pwyllgorau cyn y gyllideb, os gofynnir iddo wneud hynny. ~~Ni ddisgwylir y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth na bod yn bresennol yn y sesiwn hon.~~ | Er bod y protocol yn rhoi disgresiwn i Bwyllgorau gynnal eu gwaith eu hunain cyn y Gyllideb a chyhoeddi adroddiadau a gohebiaeth ar faterion o'r fath, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog Cyllid fod yn bresennol mewn sesiynau o'r fath.<br><br>Yn wreiddiol, cynigiodd y Pwyllgor y byddai'r disgwyliad hwn i fynychu Pwyllgor perthnasol y Senedd yn cael ei osod ar holl Weinidogion Cymru, ond cynigiodd Llywodraeth Cymru mai dim ond i'r Gweinidog Cyllid y dylai hyn fod yn berthnasol. |
| Newidiadau i baragraff 34<br>"Er mwyn sicrhau tryloywder symudiadau ariannol yn ystod y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ~~parhau i osod~~gosod dwy gyllideb atodol bob blwyddyn, yn amodol ar y ddau baragraff canlynol." | Ystyriwyd mai mater o 'dacluso' oedd hyn, a'r bwriad oedd adlewyrchu'r dull presennol o gael dwy gyllideb atodol bob blwyddyn. |

| | |
|---|---|
| Newidiadau i baragraff 40<br><br>“Mae unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig cyllideb atodol. ~~O dan y trefniadau diwygiedig, mae hyn yn parhau i fod yn wir gan fod newidiadau i’r cynnig cyllidebol yn berthnasol i Lywodraeth Cymru yn unig.~~ Fel y nodwyd ym mharagraff 26, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno ~~cyllidebau atodol yr un mor aml ag o’r blaen~~ dwy gyllideb atodol <u>ym mhob blwyddyn ariannol</u>. ~~Mae~~Bydd Llywodraeth Cymru ~~felly'n ymrwymo i barhau i gysylltu’n~~ yn cysylltu’n rheolaidd â’r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ~~ac i geisio~~ yn ceisio bodloni eu gofynion ariannol o fewn y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol. Bydd unrhyw gynnig i amrywio pa mor aml y cyflwynir cyllidebau atodol yn ystyried gofynion cyrff a ariennir yn uniongyrchol.” | Yn yr un modd â'r newidiadau i baragraff 34, ystyriwyd mai mater o 'dacluso' oedd hyn, a’r bwriad oedd adlewyrchu arfer safonol mewn perthynas â chyllidebau atodol. |

NODER: Yn ogystal â'r uchod, bydd ‘Senedd’ yn cael ei fewnosod yn lle 'Cynulliad' drwy’r ddogfen gyfan.

ATODIAD B: Newidiadau pellach i'r Protocol a awgrymwyd gan Archwilio Cymru, fel y nodwyd yn yr ohebiaeth dyddiedig 4 Gorffennaf 2024

<table>
<tr><th>Newidiadau arfaethedig</th><th>Rhesymau dros newid, yn ôl Archwilio Cymru</th></tr>
<tr><td>

**Newidiadau i baragraff 17**

“17. Gan gofio hyn, mae'r Pwyllgor Cyllid yn rhagweld y canlynol adeg cyhoeddi'r gyllideb amlinellol:

- y rhesymeg dros lefelau trethiant;
- amrywiaeth o ystadegau a dadansoddiadau economaidd perthnasol ar gyfer Cymru;
- <u>esboniad o’r modd y mae amcanion llesiant Llywodraeth Cymru</u> ~~tystiolaeth o sut y mae'r Rhaglen Lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015~~ wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

</td><td>

Mae paragraff 17 o'r Protocol yn dweud— "Gyda hyn mewn golwg, byddai'r Pwyllgor Cyllid yn rhagweld gweld ar yr adeg y cyhoeddir y gyllideb amlinellol... dangosiad o sut mae'r rhaglen lywodraethu a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb."

Gan mai'r ddyletswydd i osod amcanion llesiant yw'r prif fecanwaith o fewn Deddf 2015 ar gyfer rhoi egwyddorion ar waith, a chan nad yw'r Rhaglen Lywodraethu ei hun yn ofyniad statudol fel y cyfryw, credwn y byddai'n ddefnyddiol diwygio'r paragraff hwn er mwyn cyfeirio at esboniad o sut mae amcanion llesiant Llywodraeth Cymru wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

</td></tr>
<tr><td>

**Newidiadau i baragraff 21**

“21. Bydd pob portffolio yn anelu at fod yn gyson a darparu gwybodaeth i gefnogi'r penderfyniadau sy'n sail i'r cynigion. Gallai hyn gynnwys:

sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau, <u>amcanion llesiant</u> a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru;

asesiadau o effaith y cynigion yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol a pholisi perthnasol Llywodraeth Cymru fel cydraddoldeb, y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;

</td><td>

Yn yr un modd, credwn y byddai cyfeiriad at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol ym mharagraff 21.

</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| esboniad o'r newidiadau sylweddol i benawdau'r gyllideb o'r cynlluniau blaenorol a gyhoeddwyd." | |
| **Newidiadau i baragraff 33**<br>"33. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Er mwyn cefnogi'r Cynnig Cyllidebol Blynyddol, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i ddarparu ei chyllideb derfynol, ar yr un pryd â gosod y Cynnig Cyllidebol Blynyddol, yn cynnwys cynlluniau gwariant ac unrhyw newidiadau i'r cynlluniau ariannu a gynigir yn y gyllideb amlinellol. Bydd hefyd yn cysoni â newidiadau ar lefel BEL (neu gyfwerth) yn cael ei ddarparu gan Llywodraeth Cymru." | Ym mharagraff 33, gallai fod yn ddefnyddiol er eglurder adolygu'r frawddeg olaf i gyfeirio'n benodol at Lywodraeth Cymru gan ddarparu cymodi i gyd-fynd â newidiadau ar lefel BEL. |
| **Newidiadau i Baragraff 40 (mae newidiadau ychwanegol i'r rheini a gynigiwyd yn Atodiad A wedi'u cynnwys yn llwyd)**<br>"Mae unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig cyllideb atodol. ~~O dan y trefniadau diwygiedig, mae hyn yn parhau i fod yn wir gan fod newidiadau i'r cynnig cyllidebol yn berthnasol i Lywodraeth Cymru yn unig.~~ Fel y nodwyd ym mharagraff 34 ~~26~~, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno ~~cyllidebau atodol yr un mor aml ag o'r blaen~~ dwy gyllideb atodol ym mhob blwyddyn ariannol. Bydd Llywodraeth Cymru ~~felly'n ymrwymo i barhau i gysylltu'n~~yn cysylltu'n rheolaidd â'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ac i geisio yn ceisio bodloni eu gofynion ariannol o fewn y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol. Bydd unrhyw gynnig i amrywio pa mor aml y cyflwynir cyllidebau atodol yn ystyried gofynion cyrff a ariennir yn uniongyrchol." | Er bod y newidiadau i baragraff 40 yn ymddangos yn ddefnyddiol, yn enwedig amnewid "ymrwymo i barhau" gydag "ewyllys" yn y frawddeg olaf ond un, ymddengys bod y croesgyfeiriad yn y frawddeg flaenorol yn fwy priodol pe bai'n cael ei rhoi fel paragraff 34 yn hytrach na pharagraff 26.<br>Yn yr un modd, byddai'n ymddangos bod "arian uniongyrchol" yn y frawddeg olaf ond un yn well fel un "wedi'i hariannu'n uniongyrchol". |

ATODIAD C: Newidiadau i'r gweithdrefnau cyllideb atodol a gynigir gan Gomisiwn y Senedd, Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, fel y nodir mewn gohebiaeth a anfonwyd ar 4 Gorffennaf 2024 a 28 Mawrth 2025

| Newidiadau arfaethedig | Rhesymau dros y newid |
|---|---|
| Newid Rheol Sefydlog 20 i ffurfioli'r broses lle mae cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn gwneud ceisiadau am gyllideb atodol, gan gynnwys:<br>• pennu proses lle byddai'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn cyflwyno'u ceisiadau atodol cyn i Lywodraeth Cymru osod ei chyllideb atodol, a fyddai'n cadarnhau yn y Rheolau Sefydlog yr arfer anffurfiol a sefydledig presennol y mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei mabwysiadu; a<br>• nodi'n benodol bod Llywodraeth Cymru yn ymgorffori ceisiadau gan gyrff a ariennir yn gyhoeddus am gyllid atodol mewn cynnig cyllideb atodol, os yw'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi hynny. | Nod y newid hwn fyddai ffurfioli arfer sefydledig mewn perthynas â'r trefniadau craffu ar gyfer ceisiadau atodol a wneir gan gyrff a ariennir yn uniongyrchol a dileu unrhyw ganfyddiad y gall Llywodraeth Cymru "rwystro" ceisiadau gan y cyrff hyn, gan gadw eu hannibyniaeth. |
| Newid y Rheolau Sefydlog fel bod modd symud amserlen cyllideb Comisiwn y Senedd i ddyddiad diweddarach o 1 Hydref ymlaen, y gellid ei gyflawni drwy ddiwygio Rheol Sefydlog 20.20 i ehangu'r ddarpariaeth lle gallai'r Comisiwn gynnig amserlen wahanol i'r hyn a bennir yn y Rheolau Sefydlog. | Byddai'r newid hwn yn caniatáu i'r Comisiwn ofyn am hyblygrwydd pe bai datganiad hydref y DU yn digwydd yn hwyr, neu os bydd cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cael ei ohirio, fel sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf. |
| Newid y Rheolau Sefydlog i roi hyblygrwydd i'r Comisiwn Etholiadol gynnig symud dyddiad cyflwyno ei gyllideb o 1 Hydref, a hynny er mwyn gallu paratoi a chyflwyno ei amcangyfrif tua'r un pryd i seneddau ledled y DU. | Byddai hyn yn cynorthwyo'r Comisiwn Etholiadol i baratoi cyflwyniadau cywir a byddai'n helpu i sicrhau gwaith craffu cyson a chydgysylltiedig ar yr hyn sy'n cael ei gyflwyno ar draws seneddau Cymru, yr Alban a'r DU mewn perthynas â chyllideb y Comisiwn Etholiadol. |